



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymunedol Llanaelhaearn
Llanaelhaearn
Caernarfon
Gwynedd
LL54 5AL**

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2015

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2015

Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymunedol Llanaelhaearn ym mhentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon yng Ngwynedd. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos.

Mae niferoedd yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Bellach mae 28 o ddisgyblion ar y gofrestr, sy'n cynnwys ychydig o ddisgyblion oed meithrin rhan-amser. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion yn llawn amser i'r dosbarth meithrin ar ddechrau'r tymor y maent yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau ddsbarth cymysg eu hoedran.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 16% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 60% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 29% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ond does dim un disgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym mis Tachwedd 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers 2001.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Llanaelhaearn yn 2014-2015 yw £4,633. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Gwynedd yw £10,744 a'r lleiafswm yw £3,220. Mae Ysgol Gymunedol Llanaelhaearn yn y 24ain safle o'r 95 ysgol gynradd yng Ngwynedd o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Digonol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod patrwm o gynnydd i'w weld dros y tair blynedd diwethaf yn nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd y deiliant disgwylidig mewn iaith ar ddiwedd y ddau gyfnod
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg ac yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau
- Bod rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd da yn eu darllen
- Bod yr addysgu'n gadarn yng nghyfnod allweddol 2
- Bod bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor

Fodd bynnag:

- Yn gyffredinol, mae perfformiad yr ysgol ar y deiliant a'r lefel ddisgwylidig wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros dair blynedd.
- Nid yw mwyafrif o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwaith mathemategol ac nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm
- Ni chaiff mwyafrif y disgyblion eu herio'n ddigon llwyddiannus er mwyn gwneud y cynnydd disgwylidig ym mhen isaf yr ysgol
- Nid yw'r ysgol yn olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion yn ddigon clir
- Nid yw marcio athrawon bob amser yn rhoi arweiniad digon clir i'r disgyblion ieuengaf wybod yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod arweinyddiaeth yr ysgol yn seiliedig ar ddatblygu dysgwyr yn unigolion cyflawn
- Bod gan y pennaeth ac arweinwyr eraill ddarlun addas o gryfderau'r ysgol
- Bod cyswllt agos rhwng deiliannau'r ddogfen hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol
- Bod athrawon yn cymryd rôl gynyddol wrth fonitro gwaith disgyblion
- Bod canfyddiadau'r broses fonitro'n cael eu rhannu'n effeithiol gyda staff a llywodraethwyr

- Fe ddefnyddir cymorthyddion yn effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion unigol a grwpiau penodol

Fodd bynnag:

- Nid yw arweinyddiaeth strategol yr ysgol yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd
- Nid yw arweinwyr yr ysgol wedi monitro cynnydd yn erbyn y targedau gwella yn ddigon effeithiol nac wedi mynd i'r afael yn ddigon cyflym â diffygion penodol
- Er bod swydd ddisgrifiadau cyfredol gan y staff, nid yw eu cyfrifoldebau penodol wedi'u nodi'n glir bob tro
- Nid yw'r ysgol wedi talu digon o sylw i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd
- Nid yw'r corff llywodraethol wedi herio'r ysgol yn ddigon cyson ynghylch ei pherfformiad
- Ni chaiff y cynllun sy'n nodi cefnogaeth ar gyfer disgyblion difreintiedig ei fonitro'n ddigon effeithiol er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd

Argymhellion

- A1 Codi safonau disgyblion mwy abl ym mhob maes
- A2 Sicrhau bod gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi eu hymgorffori'n llawn yng ngynlluniau'r ysgol a'u bod yn cael eu gweithredu'n llawn
- A3 Gwella'r ddarpariaeth a'r addysgu yn y Cyfnod Sylfaen gan ymateb yn llawn i anghenion y disgyblion a'u datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol
- A4 Gwneud defnydd mwy effeithiol o ganfyddiadau asesu er mwyn olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion yn effeithiol a darparu'n briodol ar eu cyfer
- A5 Sicrhau bod gweithdrefnau monitro yn effeithiol ac yn arwain at welliant
- A6 Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth herio'r ysgol am ei pherfformiad
- A7 Sicrhau bod y cynllun amddifadedd yn cael ei ddefnyddio'n bwrpasol a'i fod yn cael ei fonitro'n gyson

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae safon medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn amrywiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae mwyafrif y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n glir yn y Gymraeg gan ddefnyddio geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn sgwrsio'n hyderus am eu profiadau a'u diddordebau gan ddefnyddio ystod gynyddol o eiriau priodol yn eu sgwrs. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn sgwrsio'n hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan amrywio'u sgwrs mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol. Mae llawer yn barod iawn i fynegi barn, ac mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn rhoi rhesymau dilys i gefnogi hynny.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn darllen gyda chywirdeb, rhuglder a mynegiant. Mae disgyblion yn defnyddio ystod o strategaethau wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd ac wrth bennu ystyr. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion drafod cynnwys testun yn ystyrllon gan gyfeirio at ddigwyddiadau a chymeriadau yn y llyfrau maent yn eu darllen.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen ystod o ddeunyddiau darllen yn hyderus yn y ddwy iaith ac mae eu dealltwriaeth o'r testun yn dda. Ar frig yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn trafod cynnwys y testun a chymeriadau mewn modd aeddfed. Ar draws y cyfnod, mae llawer yn cywain gwybodaeth am bwnc arbennig o fwy nag un ffynhonnell yn hyderus. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaethpwyd ar Gastell Cricieth yn y Gymraeg ac wrth ymchwilio i fywyd a gwaith yr awdur Michael Morpurgo yn Saesneg.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol gan ddefnyddio strwythur brawddegau addas ac atalnodi sylfaenol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio idiomau a chymariaethau'n achlysurol i gyfoethogi eu gwaith. Er enghraifft, wrth iddynt ysgrifennu portread am eu ffrind ac wrth ysgrifennu stori greadigol yn seiliedig ar chwedl y Tri Mochyn Bach. Fodd bynnag, mae llawer yn gorddibynnu ar fframiau ysgrifennu, sy'n cyfyngu ar eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus i wahanol ddibenion yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddangos ymwybyddiaeth gadarn o'r gwahanol ffurfiau. Mae llawer yn defnyddio ystod addas o batrymau brawddegau ac yn dangos gfael gynyddol o gywirdeb ac atalnodi. Mae'r rhan fwyaf yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau. Caiff hyn ei ddatblygu ymhellach ar draws y cwricwlwm; er enghraifft, adroddiad yn dilyn ymweliad ag amgueddfa forwrol Nefyn.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu'n estynedig gan ddefnyddio geiriau ac ansoddeiriau i greu effeithiau yn llwyddiannus. Enghraifft o hyn yw'r ymson a ysgrifennwyd yn seiliedig ar Oes y Tywysogion. Ar draws yr ysgol, mae cyflwyniad gwaith rhan fwyaf y disgyblion yn daclus.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae tua hanner y disgyblion yn gallu defnyddio strategaethau rhif syml yn gywir yn eu gwaith. Gall y mwyafrif lunio graff bar syml gydag arweiniad a thynnu gwybodaeth berthnasol ohono. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio uned safonol gywir wrth fesur hyd a phwysu gwrthrychau. Enghraifft o hyn yw'r gwaith mesur a wneir wrth gymharu pwysau'r moch bach a'r blaidd yng ngwaith thema'r dosbarth. Er hynny, nid yw mwyafrif y disgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwaith mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac erbyn diwedd y cyfnod mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang ohonynt i ddatrys problemau rhifiadol. Mae llawer o ddisgyblion yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed a chan ddefnyddio geirfa fathemategol yn naturiol. Er bod medrau mathemategol llawer o ddisgyblion yn gadarn nid ydynt yn trosglwyddo'r medrau yn ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae patrwm o gynnydd i'w weld dros y tair blynedd diwethaf yng nghanran y disgyblion a gyrhaeddodd y deilliant disgwylidig mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant disgwylidig wedi bod yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ym mhob maes dysgu dros y cyfnod hwn. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch dros y tair blynedd ddiwethaf wedi bod yn yr 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran y canran sy'n gymwys i brydau ysgol am ddim.

Yn gyffredinol dros y pedair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwylidig o'i chymharu ag ysgolion tebyg, wedi ei gosod yn y 25% isaf ar gyfer y pynciau craidd. Yn 2014, roedd gwelliant i'w weld yn neilliannau'r disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg. Mae'r canran sy'n cyrraedd lefelau sy'n uwch na'r disgwyl yn gosod yr ysgol yn yr 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Nid oes patrwm clir o wahaniaeth ym mherfformiad bechgyn o gymharu â merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, dros gyfnod o bedair blynedd, mae merched yn perfformio'n well na'r bechgyn ar y lefel ddisgwylidig mewn iaith a mathemateg. Nid oes patrwm o wahaniaeth arwyddocaol ar y lefelau uwch.

Mae nifer y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn rhy fach ym mhob carfan dros bedair blynedd i fedru cymharu eu perfformiad yn ystyrlon.

Mae'r nifer cymharol fach o ddisgyblion yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 dros nifer o flynyddoedd yn golygu nad yw'n deg cymharu perfformiad meincnod yr ysgol ag ysgolion tebyg na chyfartaleddau cenedlaethol.

Lles: Digonol

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o ofynion byw, bwyta ac yfed yn iach. Mae'r bron pob un o'r disgyblion yn manteisio ar y gweithgareddau priodol a ddarperir i ymarfer corff yn rheolaidd. Mae hyn yn hybu eu dealltwriaeth o gadw'n iach yn effeithiol. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae prydlondeb disgyblion yn dda.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda yn y gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais â'i gilydd, oedolion ac ymwelwyr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos diddordeb priodol yn eu gwaith ac mae llawer yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol. Er hynny, nid yw llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn hyderus wrth wneud dewisiadau ac nid ydynt yn cymryd digon o rôl yn eu dysgu eu hunain. Nid yw disgyblion ieuengaf yr ysgol yn ddigon annibynnol.

Trwy'r Cyngor Ysgol a'r Grŵp Gwyrdd, mae llawer o ddisgyblion yn cyfranogi'n briodol ym mywyd yr ysgol a'r gymuned. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r disgyblion wedi dylanwadau ar welliannau i'r adeilad ac ym mentergarwch yr ysgol i dyfu a gwerthu llysiâu yn y gymuned.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Digonol

Profiadau dysgu: Digonol

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith addas i ymateb yn briodol i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Maent yn cyfeirio at dasgau sy'n addas i ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Er hynny, nid yw profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen bob amser wedi eu seilio yn ddigon manwl ar y cynlluniau hyn. O ganlyniad, nid ydynt yn diwallu anghenion unigolion, neu grwpiau penodol o ddisgyblion, yn llawn.

Mae'r ysgol wrthi'n ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn y cynlluniau trawsgwricwlaidd. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu'n llawn. O ganlyniad, nid oes cyfleoedd priodol i'r disgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn llawn ar draws ystod o bynciau.

Mae effaith gweithredu'r polisi iaith sirol a'r sylw cadarn a roddir i'r Siarter Iaith yn cael effaith gadarnhaol ar safon lafar y rhan fwyaf o ddisgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am Gymru a'r iaith Gymraeg yn gadarn. Trwy astudio hanes lleol, a hanes bywyd a gwaith Cymry enwog fel Owain Glyndŵr, mae dealltwriaeth y disgyblion o hanes, daearyddiaeth a diwylliant Cymru yn datblygu'n dda. Mae ystod o ymweliadau, ymwelwyr a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn dda.

Caiff agweddau ar ddinasyddiaeth fyd eang eu hyrwyddo'n briodol drwy gysylltiadau gydag ysgol yn Uganda a'r gwaith Masnach Deg sy'n cael lle amlwg yng nghynlluniau'r ysgol. Mae'r 'Grŵp Gwyrdd' yn cyfrannu'n effeithiol tuag at leihau gwastraff; er enghraifft, trwy ailgylchu plastig, bwyd a dillad. O ganlyniad, mae dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion o bwysigrwydd gofalu am y byd ehangach yn gadarn.

Addysgu: Digonol

Ar draws yr ysgol, mae gan yr athrawon berthynas waith led effeithiol gyda'r disgyblion. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn briodol. O fewn yr ystafell ddosbarth, fe gefnogir y disgyblion yn effeithiol gan y cymorthyddion.

Lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mewn tua hanner y dosbarthiadau, mae cyflwyniadau'r athrawon yn ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn holi'n fedrus, sy'n galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn synhwyrol. Mae tasgau wedi eu paratoi'n briodol i ymateb i anghenion penodol mwyaf y disgyblion. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r tasgau bob amser yn herio disgyblion mwy abl yn ddigon llwyddiannus. Mae gor-gyfarwyddo mewn llawer o'r gwersi hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith, ond anghyson yw'r defnydd ohonynt ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn rheolaidd. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n adeiladol, ond nid ydynt bob amser yn rhoi arweiniad digon clir i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen ei wneud i wella eu gwaith, yn enwedig ym mhen isaf yr ysgol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ddeunyddiau asesu a phrofion safonol i asesu datblygiad disgyblion, ac yn defnyddio system electroneg i olrhain eu cynnydd. Er hynny, nid yw'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddigon effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plant.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgwr. Caiff y disgyblion gyfleoedd cyson i fyfyrion a datblygu eu hagweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol drwy wasanaethau ysgol gyfan reolaidd a gweithgareddau eraill fel cyfnodau amser cylch.

Mae trefniadau effeithiol yn bodoli er mwyn cefnogi iechyd a lles y disgyblion. Gwneir trefniadau priodol at gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Trwy gydweithio effeithiol ag asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaeth tân, gwasanaethau iechyd a seicolegol, caiff ddisgyblion gefnogaeth chynhaliaeth briodol. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol drwy rannu tystysgrifau a chadw siart 'seren y dosbarth' er mwyn gwobrwyo gwaith da. Mae disgyblion yn ymfalchïo yn hyn.

Mae'r cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol a staff yr ysgol yn darparu cefnogaeth addas ar gyfer y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn

sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i bob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio strategaethau ymyrraeth benodol i ateb anghenion y disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r system olrhain cynnydd bob amser yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a chynnydd y disgyblion. Mae cynlluniau addysg unigol addas yn eu lle ac mae rhieni'n cael cyfle i drafod ac adolygu'r cynlluniau hyn yn gyson. Mae mwyafrif y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas

Er bod trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion, mae agweddau ohonynt yn destun peth pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned agos a chroesawgar sydd yn creu ethos cynhwysol a theuluol. Caiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn ei holl weithgareddau. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth. Mae pwyslais amlwg ar barch ac mae gwerthoedd yr ysgol yn atgyfnerthu'r elfen hon yn llwyddiannus, fel y defnydd effeithiol a wneir o'r "rheolau aur" a luniwyd gan y disgyblion.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn ddeniadol a threfnus ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd o ansawdd derbyniol. Mae cydbwysedd priodol o arddangosfeydd sy'n cefnogi'r dysgu ynghyd â rhai sy'n dathlu llwyddiannau a gwaith y disgyblion.

Mae Canolfan Gymunedol 'Y Babel' yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion.

Mae'r adeilad a'r ardaloedd allanol mewn cyflwr derbyniol ac yn cael eu cynnal a'u cadw yn lân a thacrus. Yn allanol, mae'r tir yn gyfyng heb gae chwarae penodol. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o barc a chae chwarae cymunedol yn achlysurol. Mae'r iard chwarae wedi ei threfnu'n effeithiol gydag offer pwrpasol ar gael i'r disgyblion. Er hynny, nid yw'r ardal hon wedi ei datblygu'n ddigonol er mwyn ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen.. Mae llain o dir yn cael ei ddefnyddio'n fwiadus i dyfu llysiau er mwyn i'r ysgol eu gwerthu ym menter Llysiau'r Llan.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Digonol
--	----------------

Arweinyddiaeth: Anfoddhaol

Mae arweinyddiaeth yr ysgol yn seiliedig ar les disgyblion ac ar eu datblygu fel unigolion cyflawn. Er hynny, nid yw arweinyddiaeth strategol yr ysgol yn ddigon effeithiol ar hyn o bryd i sicrhau gwelliant ym mhob agwedd o'i gwaith. Nid yw arweinwyr yr ysgol wedi monitro cynnydd yn erbyn y targedau yn ddigon effeithiol ac nid ydynt wedi mynd i'r afael yn ddigon cyflym â diffygion penodol.

Er bod gan y staff swydd ddisgrifiadau cyfredol, nid ydynt bob tro yn disgrifio cyfrifoldebau unigolion yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw aelodau staff yn deall yn iawn yr hyn a ddisgwylir oddi wrthynt. Er enghraifft, er bod athrawon yn dechrau cymryd rôl gynyddol wrth fonitro gwaith disgyblion, ond nid yw eu rôl wrth wneud hyn

eto yn glir iddynt nac wedi ei datblygu'n llawn. Caiff cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ei drafod yn briodol a rheolaidd mewn cyfarfodydd staff. Fodd bynnag, nid yw'r diffyg her sy'n bodoli yng ngweithgareddau mathemategol y disgyblion yng ngwaelod yr ysgol wedi ei ddatrys hyd yma.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac yn gefnogol i waith yr ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn derbyn gwybodaeth addas gan y pennaeth am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac mae llawer yn ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Dros gyfnod o amser, nid yw'r corff llywodraethol wedi herio'r ysgol yn ddigon cyson ynghylch ei pherfformiad.

Dros gyfnod, nid yw'r ysgol wedi talu digon o sylw i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Gwella ansawdd: Digionol

Mae gan y pennaeth ac arweinwyr yr ysgol ddarlun priodol o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys data cyrhaeddiad, deilliannau prosesau monitro, ymatebion holiaduron disgyblion a barn rhieni. Ar y cyfan, mae'n arfarnol, ac yn nodi cryfderau ac agweddau priodol i'w datblygu yng nghynllun datblygu'r ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r broses wedi adnabod yr angen i godi safonau ysgrifennu disgyblion.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r broses fonitro yn ddisgrifiadol ac nid ydynt yn ddigon dadansoddol. Mae canfyddiadau'r broses fonitro'n cael eu trafod yn anffurfiol gyda staff a chyda'r llywodraethwyr. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r ysgol wedi ymateb i godi safonau darllen y disgyblion.

Mae cyswllt priodol rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn nodi nifer priodol o flaenoriaethau gwella ynghyd â chyfrifoldebau, costau, amserlen gweithredu a dangosyddion llwyddiant. Caiff gweithrediad y cynllun ei fonitro'n rheolaidd gan y pennaeth, y staff a'r corff llywodraethol. Er hynny, nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn ddigon penodol na'r dangosyddion llwyddiant yn ddigon meintiol. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i arfarnu cynnydd yn ystyrlon yn erbyn y dangosyddion llwyddiant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o bartneriaid sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at wella safonau lles y disgyblion. Gwna'r ysgol ddefnydd addas o wasanaeth cefnogi addysg yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae ymddygiad a phresenoldeb disgyblion wedi gwella trwy gymorth a chefnogaeth y swyddog lles.

Mae'r bartneriaeth â'r rhieni yn gryfder yn yr ysgol. Mae Cymdeithas Cyfeillion yr ysgol yn weithgar ac yn cyfrannu symiau sylweddol sy'n gymorth i brynu adnoddau.

Enghraifft o hyn yw'r ffens a godwyd a'r offer chwarae a brynwyd ar gyfer amseroedd chwarae. Yn dilyn gweithgaredd 'Ymresymu Rhifedd' a gynhaliwyd yn yr ysgol ar gyfer y rhieni, mae gan lawer ohonynt bellach gwell ddealltwriaeth o strategaethau gwaith rhif ac maent yn teimlo'n fwy hyderus i gefnogi eu plant yn eu dysgu. Mae medrau mentergarwch a busnes y disgyblion yn datblygu'n dda drwy weithgareddau fel gwerthu cynnyrch o ardd yr ysgol i rieni a'r gymuned leol.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithredol ymhob agwedd o fywyd y pentref; er enghraifft, datblygwyd maes chwarae mewn partneriaeth â'r Cyngor Cymuned. Mae'r maes chwarae bellach yn adnodd gwerthfawr at ddefnydd y gymuned a'r ysgol. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at weithgareddau cymunedol trwy gynnal gwasanaethau diolchgarwch a Nadolig yn y gymuned a chanu carolau i'r henoed. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd perthyn i gymuned a gweithredu'n gymunedol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch i drefnu hyfforddiant priodol i'r staff, er enghraifft mewn mathemateg ac ysgrifennu. Mae effaith y cydweithio hwn, trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau, wedi arwain at godi safonau ysgrifennu ar draws yr ysgol. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda'r ysgol uwchradd sydd yn paratoi'r disgyblion hyn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Rheoli adnoddau: Digonol

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff addysgu. Defnyddir cymorthyddion yn effeithiol i gefnogi anghenion disgyblion unigol a grwpiau penodol. Mae gan yr ysgol gynllun pwrpasol sy'n nodi cefnogaeth ar gyfer disgyblion difreintiedig. Fodd bynnag, nid yw'r gefnogaeth bob tro yn ymateb i anghenion penodol y disgyblion sy'n gymwys amdano, ac ni chaiff y cynllun ei fonitro'n barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad, sy'n ymateb i anghenion datblygiad proffesiynol yr athrawon a blaenoriaethau'r ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd y mae'r ysgol wedi sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth bwrpasol i staff fedru codi safonau darllen y disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar faich gwaith athrawon a gwna'r athrawon ddefnydd addas o'u hamser digyswllt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion.

Ar y cyfan, mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau ac fe'u rheolir yn addas i gefnogi'r dysgu. Er hynny, mae prinder adnoddau yn ardal allanol y Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae hyn yn cyfyngu ar allu'r ysgol i ymateb yn llawn i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn cadw golwg cyson ar y sefyllfa gyllidol ac yn rheoli'r gwariant yn effeithiol. Mae defnydd priodol o grantiau a chyfraniadau ariannol gan gyfeillion yr ysgol, yn ychwanegu'n sylweddol at y cyllid ac yn cyfoethogi'r ystod o adnoddau a'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion yn briodol.

O ystyried safonau dros gyfnod, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

Atodiad 1 Sylwadau ar ddata perfformiad

6612059 - Ysgol Gynradd Llanaelhaearn

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 40
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 16.1
 Grŵp PYD 3 (16%<PYD<=24%)

Cyfnod Sylfaen

	2012	2013	2014
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2	*	5	7
Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)	*	60.0	71.4
Chwarter meincnod	*	4	4
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	*	*
Chwarter meincnod	*	*	*
Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	5	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	60.0	71.4
Chwarter meincnod	*	4	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	20.0	0.0
Chwarter meincnod	*	3	4
Datblygiad mathemategol (MDT)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	5	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	80.0	71.4
Chwarter meincnod	*	4	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	20.0	0.0
Chwarter meincnod	*	3	4
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)			
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	5	7
Yn cyflawni deilliant 5+ (%)	*	80.0	71.4
Chwarter meincnod	*	4	4
Yn cyflawni deilliant 6+ (%)	*	20.0	0.0
Chwarter meincnod	*	4	4

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

6612059 - Ysgol Gynradd Llanaelhaearn

Nifer y disgyblion ar y gofrestr 40
 Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd 16.1
 Grŵp PYD 3 (16%<PYD<=24%)

Cyfnod allweddol 2

	2011	2012	2013	2014
Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6	*	7	*	6
Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)	*	28.6	*	66.7
Chwarter meincnod	*	4	*	4
Saesneg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	7	*	6
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	28.6	*	66.7
Chwarter meincnod	*	4	*	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	0.0	*	0.0
Chwarter meincnod	*	4	*	4
Cymraeg iaith gyntaf				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	7	*	6
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	57.1	*	66.7
Chwarter meincnod	*	4	*	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	14.3	*	16.7
Chwarter meincnod	*	3	*	4
Mathemateg				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	7	*	6
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	57.1	*	66.7
Chwarter meincnod	*	4	*	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	28.6	*	33.3
Chwarter meincnod	*	3	*	3
Gwyddoniaeth				
Nifer y disgyblion yng ngharfan	*	7	*	6
Yn cyflawni lefel 4+ (%)	*	42.9	*	66.7
Chwarter meincnod	*	4	*	4
Yn cyflawni lefel 5+ (%)	*	14.3	*	33.3
Chwarter meincnod	*	4	*	3

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iaith gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwarter meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae ysgol yn chwarter meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwarter meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
<http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym>

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
Overall I am satisfied with the school.	11	9 82%	2 18%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol.
		63%	33%	3%	1%		
My child likes this school.	11	10 91%	1 9%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn hoffi'r ysgol hon.
		73%	25%	1%	0%		
My child was helped to settle in well when he or she started at the school.	11	9 82%	2 18%	0 0%	0 0%	0	Cafodd fy mhentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol.
		72%	26%	1%	0%		
My child is making good progress at school.	11	10 91%	1 9%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol.
		61%	34%	3%	1%		
Pupils behave well in school.	11	3 27%	5 45%	2 18%	0 0%	1	Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.
		46%	45%	4%	1%		
Teaching is good.	11	8 73%	3 27%	0 0%	0 0%	0	Mae'r addysgu yn dda.
		60%	35%	2%	0%		
Staff expect my child to work hard and do his or her best.	11	9 82%	2 18%	0 0%	0 0%	0	Mae'r staff yn disgwyl i fy mhentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau.
		63%	33%	1%	0%		
The homework that is given builds well on what my child learns in school.	11	7 64%	4 36%	0 0%	0 0%	0	Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol.
		47%	40%	6%	1%		
Staff treat all children fairly and with respect.	11	8 73%	2 18%	0 0%	0 0%	1	Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.
		58%	33%	4%	1%		
My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise.	11	9 82%	2 18%	0 0%	0 0%	0	Caiff fy mhentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.
		59%	36%	2%	0%		

	Number of responses Nifer o ymatebion	Strongly Agree Cytuno'n gryf	Agree Cytuno	Disagree Anghytuno	Strongly disagree Anghytuno'n gryf	Don't know Ddim yn gwybod	
My child is safe at school.	11	8 73%	2 18%	0 0%	0 0%	1	Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol.
		66%	31%	1%	0%		
My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'.	10	8 80%	2 20%	0 0%	0 0%	0	Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.
		50%	34%	4%	1%		
I am kept well informed about my child's progress.	11	8 73%	3 27%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn.
		49%	40%	8%	2%		
I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem.	11	10 91%	1 9%	0 0%	0 0%	0	Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem.
		62%	31%	4%	2%		
I understand the school's procedure for dealing with complaints.	11	7 64%	2 18%	0 0%	0 0%	2	Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion.
		45%	38%	7%	2%		
The school helps my child to become more mature and take on responsibility.	11	9 82%	1 9%	0 0%	0 0%	1	Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb.
		56%	38%	2%	0%		
My child is well prepared for moving on to the next school or college or work.	11	8 73%	1 9%	0 0%	0 0%	2	Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith.
		42%	33%	4%	1%		
There is a good range of activities including trips or visits.	11	10 91%	1 9%	0 0%	0 0%	0	Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.
		54%	38%	5%	1%		
The school is well run.	11	9 82%	2 18%	0 0%	0 0%	0	Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.
		61%	32%	3%	2%		

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Mrs Anwen Eluned Griffith	Arolygydd Cofnodol
Mr Eifion Lloyd Watkins	Arolygydd Tîm
Mrs Meleri Cray	Arolygydd Lleyg
Miss Catrin Haf Pritchard	Arolygydd Cymheiriaid
Ms Sianelen Fleming	Enwebai

Copiau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau – Cynradd

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.